

Arwain cynaliadwyedd

Sut mae Agored Cymru yn addysgu arweinwyr yfory



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



Agored Cymru

Trosolwg

Mae'r stori hon yn canolbwyntio ar ymgyrch Agored Cymru i greu cymwysterau datblygu cynaliadwy a fydd yn cefnogi ymrwymiad statudol Llywodraeth Cymru i'r ffordd y mae busnesau a'r sector cyhoeddus yng Nghymru'n gweithredu.

Cefndir

Agored Cymru yw'r Sefydliad Dyfarnu yng Nghymru. Mae'n ymddiriedolaeth elusennol ac yn fenter gymdeithasol sy'n gweithio mewn partneriaeth i hybu dysgu, ehangu cyfleoedd a sicrhau bod dilyniant ar gael i ddysgwyr yng Nghymru. Gyda dros 20 mlynedd o brofiad mewn dyfarnu credydau yng Nghymru, rydyn ni'n datblygu cymwysterau a chyfleoedd ar gyfer achrediad i fodloni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru wrth iddi gefnogi cyflogwyr, cymunedau a dysgwyr o bob oed i elwa o fanteision dysgu..

Canlyniadau

Pennu canlyniadau sy'n ychwanegu at les Cymru

Tystiolaeth

Gwneud penderfyniadau gan ddefnyddio gwell gwybodaeth

Cydweithio

Gweithio gydag eraill ar draws ffiniau

Hir dymor

Rhoi sylw i'r achos yn hytrach na'r symptomau

Cysylltu

Canolbwyntio ar y manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol

Tryloywder

Mesur y gwahaniaeth yr ydych chi'n ei wneud ac adrodd arno

Dyma un o gyfres o straeon ar ddatblygu cynaliadwy sydd i'w gweld ar wefan Astudiaethau Achos Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/>

Pam

Sbardunwyd y cymwysterau Arwain er Cynaliadwyedd Lefel 5 gan yr angen i sicrhau bod Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang yn greiddiol i'r system addysg, yn ogystal â datblygiad y Bil Datblygu Cynaliadwy sydd ar droed.

Daeth yr ysbrydoliaeth ar gyfer y cymhwyster gan Peter Jenner, Prif Weithredwr yr ymgynghoriaeth a'r darparwr hyfforddiant William Battle Ltd ac aelod o Fwrdd Agored Cymru. Roedd ffocws Jenner ar sicrhau bod cynaliadwyedd wrth galon y busnes, ac roedd yn awyddus i ddatblygu cymhwyster a oedd yn addysgu unigolion yn effeithiol, ac yn eu helpu, i gyflawni hyn. Ym mis Hydref 2011, enillodd cyn-fyfriwr ar y rhaglen, Glyn Jones o Princes Gate Cool Water, 'Wobr Gwella Sgiliau Arwain a Rheoli' gan Lywodraeth Cymru.

Ar yr un pryd, cydnabu Agored Cymru fod Cymru yn un o bedwar rhanbarth yn unig ar draws y byd sydd ag ymrwymiad statudol i gynaliadwyedd, ac felly roedd edrych yn agosach ar y sgiliau a'r wybodaeth yr oedd eu hangen i gefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynaliadwy yn gwneud mwy o synnwyr eto. Oherwydd y llwyddiant a welwyd eisoes gydag unedau presennol Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang Agored, roedd yna hyder hefyd y byddai eu hymagwedd yn cael effaith yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Buan y gwelodd Agored fod rhaglenni addysgol yn ffordd hanfodol o gyflwyno datblygu cynaliadwy fel ffordd brif ffrwd o gynnal busnes a rhedeg gwasanaethau o fewn y sector cyhoeddus. Defnyddiwyd y rhaglen wrth ail-gomisiynu Gofal Cymdeithasol a gwella Gofal Iechyd yng Nghymru a dyma'r allwedd i wynebu heriau'r Mesur newydd yn yr hydref.

Beth wnaethon nhw

Seiliwyd y cymhwyster newydd ar waith a wnaed dros 15 mlynedd

gydag arfer gorau o'r Unol Daleithiau, y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd ac mae wedi cael ei dreialu ar draws y Deyrnas Unedig ac Ewrop trwy gwerth £4.6m o nawdd.

Datblygwyd yr unedau trwy ymgysylltu â busnesau i "gyflawni mwy gyda llai", a'r nod yw mynd tu hwnt i feddylfryd o welliant parhaus a chynyddol trwy hybu arloesi a rhyddhau creadigrwydd y gweithlu.

"Ydy, mae ffocws datblygu cynaliadwy ar risg, ond mae hefyd ar gyfle ac arfer da a'r achos busnes dros feddwl yn gynaliadwy i drosglwyddo tyfiant carbon isel a darparu ansawdd bywyd cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru."

Rachel Mooney,
Uwch Reolwr Datblygu Cymwysterau,
Agored.

Mae'r cymwysterau lefel 5 yn adeiladu ar yr unedau Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang achrededig a oedd gan Agored yn barod, yn ogystal â mewnbwn gan amrywiaeth eang o randdeiliaid gan gynnwys Uned Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, a detholiad o arbenigwyr o'r sector preifat sy'n ymwneud yn uniongyrchol â menter busnes a datblygiad addysgol.

Datblygodd y Grŵp Llywio'r cynnwys yn bwrpasol ar sail gwybodaeth ac arferion sy'n seiliedig ar y gweithle, i drosglwyddo economi carbon isel a'r angen am newid radical yn y ffordd y mae cynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol/iechyd ac amgylcheddol yn cael sylw.

Dyma un o gyfres o straeon ar ddatblygu cynaliadwy sydd i'w gweld ar wefan Astudiaethau Achos Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/>

Trwy'r datblygiad hwn, nododd Agored Cymru dri sgil craidd ar gyfer datblygu cynaliadwy:

1. Y gallu i feddwl a gweithredu o fewn tri dimensiwn cynaliadwyedd ar yr un pryd (economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol).
2. Y sgil dysgedig o drosglwyddo newid ar draws sefydliad o'r tu mewn.
3. Arloesi mewn cynnyrch, gwasanaethau a phrosesau.

Mae rhai o'r unedau penodol a ddatblygwyd ar sail y sgiliau hyn yn cynnwys:

- Trosglwyddo newid cynaliadwy
- Cadwyn gyflenwi gynaliadwy a phartneriaethau strategol
- Caffael sector cyhoeddus i hybu economïau lleol
- Gostwng gwastraff i wella gwasanaethau ac arbed ar gostau
- Cynllunio dilyniant a rheoli talentau ar gyfer cynaliadwyedd
- Arloesi trwy amrywiaeth

Y nod yw hyfforddi 'asiantau newid cynaliadwyedd' mewnol gyda'r sgiliau i gael effaith sylweddol ar werth cyfranddalwyr a phroffidioldeb cwmnïau.

Beth newidiodd

Lansiwyd y cymhwyster yn swyddogol ym mis Ebrill 2013 ac mae wedi denu sylw'r sector cyhoeddus a'r sector preifat. Mae angen aros i weld a fydd yn cyflawni llawn botensial ei brif nod o greu mudiadau sy'n gynaliadwy yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol, ond mae Agored Cymru'n gobeithio y bydd cynllun y cwrs yn herio amodau sy'n rhwystro'r llwybr at ffordd fwy cynaliadwy o weithio.

Nid yw'r cwrs yn canolbwyntio ar ochr wyddoniaeth a rhifau datblygu cynaliadwy yn unig. Mae'n cydnabod, er mwyn creu newid, fod cyfuniad o wybodaeth, cynaliadwyedd a sgiliau meddal yn bwysig iawn.

Yn ôl Rachel Mooney, mae'r cymhwyster yn meithrin gallu dysgwyr i ystyried metreg economaidd, cymdeithasol, iechyd ac amgylcheddol canlyniadau tra'n meistroli'r arfer o Reoli Newid Cynaliadwy. Disgwylir hefyd y bydd y dysgwyr yn hyfedr wrth gyfathrebu a grymuso ac wrth arfarnu cyraeddiadau a'u cydnabod.

"Mae wedi cymryd blwyddyn i ymchwilio i'r cymhwyster, craffu arno ac ymgorffori cyngor ar arfer gorau gan yr arbenigedd o fewn y sector busnes. Dyma'r cyntaf o'i fath, a gobeithir y bydd yn cefnogi newid sylweddol tuag at gynaliadwyedd economi Cymru".

Rachel Mooney,
Uwch Reolwr Datblygu Cymwysterau,
Agored.

Beth ddysgon nhw

Yr her nesaf ar gyfer y cwrs yw sicrhau bod galw amdano yng Nghymru, a hynny o blith y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Dyma un o gyfres o straeon ar ddatblygu cynaliadwy sydd i'w gweld ar wefan Astudiaethau Achos Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/>

Mae rhai mudiadau yn y sector cyhoeddus eisoes wedi dangos eu cefnogaeth, er enghraifft Arweinydd Dinas a Sir Abertawe a'i dîm, Rheoli yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Phrif Weithredwr y GIG. Mae adeiladu'r cymhwyster mewn Llywodraethu Cynaliadwy wedi bod yn rhaganghenraid hanfodol i annog ymrwymiad gan y mudiadau hyn.

Gan fod y sector preifat a'r sector cyhoeddus wedi cael eu cynnwys wrth ffurfio'r cwrs, cafodd ei gynllunio gan ystyried eu hanghenion nhw. Er mwyn sicrhau bod y cwrs yn mynd yn ei flaen yn llwyddiannus, mae sicrhau cefnogaeth wleidyddol a chael Rheoli yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru ac Uwch Reolwyr Adnoddau Dynol i fabwysiadu'r rhaglen yn mynd i gael dylanwad positif ar y nifer sy'n ei ddilyn.

Mae Agored Cymru'n dweud mai dim ond dechrau'r siwrnai yw hyn. Nawr, rhaid argyhoeddi mudiadau bod angen iddynt fuddsoddi mewn hyfforddiant fel ffordd o drosglwyddo cynaliadwyedd trwy dwf economaidd, arbed ar gostau, arloesi yn y gwasanaeth a gwelliannau amgylcheddol. Rhaid hefyd sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn fwy perthnasol i Brif Weithredwyr fel thema sy'n trawsdorri ac sy'n eu helpu i gyflawni eu blaenoriaethau gweithrediadol a strategol.

Fe fydd derbyniad yr egwyddorion hyn, a'u trosglwyddiad, a'u gosodiad wrth galon arferion mudiadau yng Nghymru, yn cael ei fonitro a'i adolygu yn gyfnodol dros y pum mlynedd nesaf. Dylai fod modd mesur ei lwyddiant trwy weld os ydynt yn cael eu defnyddio o hyd ac os yw mudiadau'n addasu ac yn cefnogi arferion busnes cynaliadwy.

Manylion Cyswllt a Dolenni

Rachel Mooney
Uwch Reolwr Datblygu
Cymwysterau

02920 741069

Cwrs Arwain er Cynaliadwyedd

Unedau Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a
Dinasyddiaeth Fyd-eang Agored

William Battle Ltd

Unedau Cynaliadwyedd Agored

“Caiff y rhan fwyaf o fudiadau eu cynllunio'n ynysig. Rydyn ni'n creu strwythurau rheoli yn ynysig, yn cyllidebu yn ynysig, yn llunio polisiâu yn ynysig ac yn gweithredu strategaethau yn ynysig. Yna, rydyn ni'n pendroni pam nad yw datblygu cynaliadwy'n gweithio. Mae'r cymhwyster yn cymryd datblygu cynaliadwy oddi ar yr ynys hon ac yn ei ledaenu ar draws pob strwythur sefydliadol trwy roi sylw i faterion economaidd, cymdeithasol/iechyd ac amgylcheddol ar yr un pryd.”

Peter Jenner,
Prif Weithredwr William Battle Ltd.

Dyma un o gyfres o straeon ar ddatblygu cynaliadwy sydd i'w gweld ar wefan Astudiaethau Achos Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/>

